

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 11.10.23 am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwriol

Presennol: David Griffiths (DG) Cadeirydd, Geraint Edwards (GE) Is Gadeirydd, Huw Davies (HD), Nicola Roberts (NR), Geraint Micah (GM), Jenny Warne (JW), Megan Griffiths (MG), Louise Hughes (LH) - Cynghorydd Sirol, Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** Keith Carroll, Jane Lawrence, Ian Williams.
2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 2.1 **Datgan Diddordeb:** Dim.

Japanese Knotweed (JK) – Cath Severn (CS) a Mike Senior (MS) yn bresennol yn y cyfarfod – ar ran Grŵp Amgylchedd Llwyngwriol

Dywedodd CS fod y grŵp wedi bod yn ei chael hi'n anodd, nad oeddent yn gallu sicrhau cyllid na rhoddion a bod ganddynt £23 ar ol yn y pot pres. 'Roedd y gwaith o chwistrellu'r JK eleni wedi'i wneud, ac wedi ei dalu amdano, gyda'r gost eleni yn rhatach nag o'r blaen. Wrth i'r JK leihau mae CS yn credu y bydd y gost o chwistrellu yn lleihau. Mae'r grŵp wedi cael trafferth cadw gwirfoddolwyr ac ar ôl 5 mlynedd o waith caled teimlir nad oes opsiwn arall ond i orffen y grŵp. **Pwrpas y cyfarfod felly oedd gweld a allai'r Cyngor Cymuned gymryd gwaith y grŵp drosodd. ac yn ddelfrydol dylai bara am 2-3 blynedd arall, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf.** Cynigiodd MS gopiâu o'r tîrfeddianwyr yn rhoi caniatâd os byddwn yn cymryd y gwaith drosodd a CS yn trosglwyddo eu cyfrifon i gael eu hadolygu.

Ni ddylai cyfanswm y gost i'r Cyngor Cymuned fod yn fwy na £100.00 bob blwyddyn. Tynnodd CS sylw at y ffaith bod clwstwr newydd o JK yn y cae i'r dde i'r afon, roedd y defaid yn bwydo arno. Dywedodd fod y tir yn perthyn i John Griffiths a bod MS wedi siarad ag ef.

Dywedodd CS nad oes unrhyw gontract gwirioneddol yn ei le gyda'r chwistrellwr, felly mae hyn yn rhywbeth y byddai angen mynd i'r afael ag ef petai'r Cyngor yn ei gymryd drosodd. Dywedodd MS ei fod yn mynd i fod yn gadael y grŵp, ond dywedodd CS y byddai'n hapus i aros fel "pwynt cyswllt" ac y byddai'n cynorthwyo pan fyddai'r chwistrellu yn digwydd.

Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor Cymuned yn unfrydol y byddai'n drueni caniatáu i'r gwaith caled hyd yma beidio a pharhau. Fodd bynnag, nododd HD mai arian cyhoeddus fyddai'n talu am chwistrellu tir preifat mewn rhai achosion. Yr ateb a gynigiwyd oedd y byddai CS yn cadw'r grŵp i fynd gyda cymorth un neu ddau o wirfoddolwyr o'r Cyngor pe bai angen, sy'n golygu y gellid cwrdd â'r gost fel "rhodd" gan y Cyngor Cymuned a fyddai'n dod o dan polisi rhoddion y Cyngor Cymuned.

JJ i ysgrifennu at CS yn cynnig hyn ac yn egluro'r pryderon am arian cyhoeddus yn cael ei wario i drin tir preifat.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol (12.09.23) yn gywir.
Cynnig: GE **Eiliwyd:** HD **Arwyddwyd:** David Griffiths.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol:

- a) **Hawl Tramwy/Ffordd Ddiddosbarth (Sunbeach)** – JJ i fynd ar ôl Cyngor Gwynedd am ymateb. GM wedi siarad â Green Lane Association a bydd yn gofyn iddynt e-bostio JJ gyda manylion y camau mae'r Cyngor Cymuned angen eu cymryd os bydd y Cyngor yn methu cael ymateb i'w ymholiadau.
- b) **Wal Derfyn Friog** – ymateb wedi ei dderbyn gan Steffan Jones, Cyngor Gwynedd gyda rhaglen waith ganddo. Aelodau yn dal ddim yn hapus ynglyn a'r sefyllfa felly pawb oedd yn besennol yn y cyfarfod yn cytuno y dylai JJ gysylltu â'r Ombwdsmon i weld os y gall hynna gynorthwyo'r sefyllfa gan fod hyn yn achos o esgeulustod difrifol.
- c) **Cais Cynllunio NP/69/56M (Sunbeach)** – nid yw LH wedi cael unrhyw lwyddiant hefo Parc Cenedlaethol Eryri hyd yma ond bydd yn parhau i'w poeni am ateb, a gobeithio trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser JJ i ysgrifennu at Paul Evans i ofyn am ddiweddariad.

- d) **Dŵr Cymru** – cadarnhaodd GE ei fod wedi gwneud cwyn i Dwr Cymru, yn ogystal â llythyr y Cyngor Cymuned. Dywedodd ei fod wedi cael cadarnhad gan Dwr Cymru fod y ddau gwyn wedi eu derbyn a bod arolygiad wedi'i drefnu o'r safle, yn yr afon Gwrl. Fodd bynnag, dim cysylltiad pellach wedi eu wneud gyda GE na JJ, felly JJ i anfon llythyr pellach yn gofyn am ddiweddariad a pha gamau a gynigiwyd yn dilyn eu hymweliad adolygu. Roedd HD eisiau i JJ ofyn yn y llythyr i Dwr Cymru os oedd posib gosod bloc concrit yno, fel sydd wedi ei osod ymhellach i lawr yr afon.
- e) **ROSPA** – Cadarnhaodd GE ei fod wedi archwilio'r polyn troelli Rotator (Spica) ac wedi gweld fod y cyfeiriannau wedi tori. Dywedodd ei fod wedi ffonio GL Jones a cafodd ddyfynbris ganddynt, sef £1,999.20 gan gynnwys TAW. 'Roedd wedi mynd ar-lein wedyn a chael dyfynbris rhatach, ond nid oedd yn cynnwys ffitiadau. Cytunwyd felly i ymchwilio'r mater ymhellach a'i drafod yn y cyfarfod nesaf. Oherwydd bod yr eitem wedi cael ei dynny o'r safle, 'roedd yna broblem gyda diogelwch yna ac roedd conau'n cael eu tynnu'n gyson. Felly cytunodd GE a HD i ymweld â'r safle a chanfod beth ellid ei wneud i wneud y safle yn ddiogel tan bod y Spica yn cael ei adnewyddu.

5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:

Ymateb gan y Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â llythyr mewn perthynas â pharcio ger y Galeri, Llwyngwrl a llythyr gan Debbie Ashton a oedd wedi cael gwybod am y materion a godwyd. Dim camau pellach i'w cymryd, JJ i ysgrifennu at Debbie i roi gwybod iddi, a gofyn a allai ofyn i westeion beidio â pharcio ar y palmant - lle gallai achosi anawsterau i gerddwyr a defnyddwyr y ffordd.

6. Materion Cynllunio:

- **NP5/69/50M – Ty Olaf, Llwyngwrl** – dim gwrthwynebiad gan unrhyw aelod o'r Cyngor. JJ i hysbysu'r Parc Cenedlaethol Eryri bod dim sylwadau na gwrthwynebiad i'w cyflwyno ynglŷn a'r cais, gan fod estyniad wedi ei roi i'r cais yma i alluogu'r aelodau drafod y cais yn y cyfarfod.

7. Adroddiad Ariannol:

a. **Adroddiad Ariannol Medi 2023** - Cytunwyd fel cyfrif cywir a chymeradwywyd.
Cynnig: GE Eilydd: JW Arwyddwyd: DG.

b. **Taliadau** - Pum sic e'w harwyddo: Cyflog a chostau'r Clerc (JJ), Treth Incwm HMRC, SLCC (hyfforddiant), Rhodd i Dail Dysynni a'r Lleng Brydeinig Frenhinol (Wreath).

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:

Ychydig oedd gan Louise Hughes i'w adrodd heblaw am gyfarfod oedd wedi mynychy yn ddiweddar pan gafodd y cyfyngiad cyflymder o 20mya ei drafod. Dywedodd fod llawer o bobl wedi cysylltu â hi yn ei gyloch ac eu bod wedi sefydlu y gall Cynghorau Cymuned lobio yn ei erbyn y cyfyngiad o 20 mya. Mae 11 o newidiadau cyflymder rhwng Llwyngwrl a rhiw Arthog – sydd yn 4.5 milltir o ffordd!

10. Unrhyw Fater Arall:

- **Mynediad i Draeth Llwyngwrl:** Mae'r gwaith gwreiddiol a wnaed ar geg yr afon i ddargyfeirio cwrs yr afon i'r dwr lifo i'r mor, wedi methu, a bydd angen cario allan y gwaith unwaith eto i newid cwrs yr afon. HD sydd gan y Drwydded FRAP (trwydded gweithgaredd risg llifogydd) - **FRA/NM/2021/0025** - sy'n ddilys tan 31 Rhagfyr 2024 - felly does dim angen gwneud cais am drwydded arall. Yn unol â'r drwydded rhaid cario unrhyw waith allan rhwng Ebrill a Hydref felly y cynharaf y gellir gwneud hyn yw Ebrill 2024. Gofynwyd i JJ i gysylltu a Chyngor Gwynedd ac esbonio bod angen dargyfeirio eto ar yr afon a gofyn a fyddent yn ystyried cyllid fel y gwnaethant yn flaenorol. Dylid anfon llythyr at Gwyn Lloyd Evans sef y Swyddog Llwybrau Troed, Cyngor Gwynedd.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 08.11.23 - am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwrl

Arwyddwyd

Cadeirydd Dyddiad